**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 12 Tachwedd 2002
**Amser:** 9:00 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-22-2002 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Cadeirydd, Rosemary Butler, Ann Jones, Dai Lloyd ac Owen John Thomas wedi ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl y cyfarfod diwethaf. Aeth Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor John Turnbull, yr Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol Huw Rowlands, y Clerc Olga Lewis a'r Dirprwy Glerc Simon Thwaite gyda hwy. Cyfarchwyd y Pwyllgor gan y Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyol Angela Parkes, Uwch Gwnsler y Cynulliad Gwyn Griffiths a Chwnsler y Cynulliad Catrin Huws.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gael ei gyfarch gan Angela Parkes a ddiolchodd i'r Pwyllgor Deddfau am feirniadaeth adeiladol ac a nododd fod y broses o ddrafftio deddfwriaeth yn waith tîm. Roedd y Pwyllgor Deddfau yn rhan o'r tîm hwn. Rhoddodd Ms Parkes drosolwg o waith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac esboniodd rôl yr Uned Rheoli Deddfwriaeth.

2.3 Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud fod Gwyn Griffiths wedi siarad â'r Pwyllgor ynglŷn â'r broses ddrafftio ei hun a'r anawsterau a wynebir gan y cyfreithwyr. Un anhawster penodol yw'r cyfuniad o ba mor gyflym y mae'n rhaid i'r cyfreithwyr greu deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r gwaith o fewn terfynau amser caeth a thrwyadledd gwaith paratoi yr Offerynnau Statudol. Weithiau nid oes amser i ddangos deddfwriaeth ddrafft i Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau i'w gwirio ymlaen llaw. Felly, gall gwallau teipograffyddol a gwallau tebyg ymddangos heb i neb sylwi arnynt.

2.4 Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud fod Catrin Huws wedi siarad am y broses o gyd-ddrafftio deddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg, sy'n cynnwys dau destun gwreiddiol yn hytrach na chyfieithu testun i iaith arall. Golyga'r broses hon fod dau gyfreithiwr yn gweithio a'i bod yn cymryd mwy o amser.

2.5 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Ms Huws wedi dweud y caiff y ddeddfwriaeth a ddaw yn ei sgîl ei pharatoi yn drylwyr dros ben a dylai gynnwys llai o wallau. Mae'r anawsterau wrth gyd-ddrafftio deddfwriaeth yn cynnwys:

- yr angen i gyflogi cyfreithwyr dwyieithog;
- rhaid i'r cyfreithwyr hyn fod yn gyfarwydd â'r modd arbennig hwn o baratoi offerynnau statudol;
- dylent fod yn gyfarwydd â'r derminoleg a gymeradwyir ac ymadroddion penodol;
- rhaid cael digon o le i weithio er mwyn iddynt weithio ochr yn ochr.

2.6 Dywedodd y Cadeirydd fod ymweliad cyntaf y Pwyllgor yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol iawn. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymrwymedig i'r syniad o gyd-ddrafftio ei holl ddeddfwriaeth yn y pen draw. Gan gofio hyn, cynigiodd y Cadeirydd ddiolch i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am dderbyn Aelodau'r Pwyllgor Deddfau a chymeradwyo'r gwaith o gyd-ddrafftio Offerynnau Statudol. Cynigiodd y Cadeirydd anfon llythyr i'r Cwnsler Cyffredinol at y diben hwn. Paratowyd llythyr drafft a dosbarthwyd ef ymysg yr Aelodau.

2.7 Tanlinellodd y Cadeirydd y byddai o fudd i'r Aelodau pe baent yn cael copi o 'Life of an SI (Key Stages)'. Penderfynwyd ei ddosbarthu ymysg yr Aelodau. **(Gweithredu: Clerc/Dirprwy Glerc)**

**Eitem 3: Materion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC555 – Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC555 (Adroddiad).

**LC559 – Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC559 (Adroddiad).

**LC556 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a'u galluogodd i awgrymu addasiad drafftio a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC556 (Adroddiad).

**LC557 – Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**
3.10 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC557 (Adroddiad).

**LC558 – Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.13 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC558 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Tachwedd 2002